Royal College of Physicians

National Respiratory Audit Programme (NRAP)



# Archwiliad gofal sylfaenol

## Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

## Beth yw archwiliad gofal sylfaenol Rhaglen Genedlaethol Archwiliadau Anadlol?

Rydych chi wedi cael y daflen hon oherwydd bod gan eich plentyn asthma. Rydym eisiau rhoi gwybod i chi am yr archwiliad clinigol cenedlaethol sy'n cael ei gynnal, a sut byddai gwybodaeth eich plentyn yn gallu cael ei defnyddio.

Mae archwiliad gofal sylfaenol NRAP yn edrych ar sut mae plant a phobl ifanc sydd ag asthma yn cael gofal gan eu meddygfa. Mae'n cymharu'r gofal hwn â chanllawiau cenedlaethol ar gyfer y cyflyrau hyn.

Mae archwiliadau clinigol yn gofyn cwestiynau am y gofal sy'n cael ei ddarparu i gleifion, er enghraifft:

- Beth ddylem fod yn ei wneud?
- Beth ydym ni'n ei wneud?
- Sut gallwn ni wella?

## Pa wybodaeth fydd yn cael ei chasglu am fy mhlentyn?

Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu am ddiagnosis asthma a thriniaeth eich plentyn. Daw'r wybodaeth hon o gofnodion electronig am gleifion mewn meddygfeydd yng Nghymru. Bydd manylion personol eich plentyn yn aros yn breifat bob amser.

## Sut bydd gwybodaeth fy mhlentyn yn cael ei chasglu?

Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu o gofnodion cleifion, gan ddechrau yn ystod hydref 2023. Bydd data'n cael ei gasglu bob 3 mis tan o leiaf 31 Mai 2026.

## Pam nad yw staff y feddygfa wedi gofyn am ganiatâd i ddefnyddio gwybodaeth fy mhlentyn?

Ni fydd yr archwiliad yn casglu unrhyw wybodaeth sy'n gallu cael ei defnyddio i adnabod eich plentyn. Felly does dim angen gofyn am ganiatâd gan rieni neu warcheidwaid.

## Sut rydym yn cadw gwybodaeth eich plentyn yn ddiogel?

Rhaid i sefydliadau sy'n delio â'r data ddilyn deddfau i gadw'r wybodaeth yn ddiogel.

## Sut bydd gwybodaeth fy mhlentyn yn cael ei defnyddio?

Bydd meddygfeydd yn cael adroddiadau er mwyn gwella gofal eich plentyn. Mae adroddiadau hefyd yn helpu i ddangos pa elfennau y mae angen eu gwella ledled Cymru. Mae'n bosibl y bydd y data'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil; bydd manylion personol eich plentyn yn cael eu gwarchod bob amser.

## Dweud 'dim diolch'

Yn y gorffennol, gallai cleifion ddweud 'na' neu wrthod caniatáu i'w data gael ei ddefnyddio ar gyfer archwiliad. Gan mai dim ond data dienw fydd yn cael ei ddefnyddio, dydy hyn ddim yn berthnasol erbyn hyn.

## Pwy sy'n cynnal yr archwiliad?

Y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) sy'n ariannu'r archwiliad, ac mae'n cael ei gynnal gan Goleg Brenhinol y Meddygon (RCP).

## Cysylltu

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, holwch eich meddygfa neu cysylltwch â thîm NRAP drwy anfon e-bost i NRAPinbox@rcp.ac.uk neu ffonio 020 3075 1526.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan NRAP hefyd yn: www.rcp.ac.uk/projects/primary-care-workstream

Yn gweithio gyda:

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

Comisiynwyd gan:

HQIP
Healthcare Quality Improvement Partnership

© Coleg Brenhinol y Meddygon | Medi 2023